

Cyfeirnodau

Adams, W. (2015). 'Conducting Semi-Structured Interviews', yn Hatry, H., Newcomer, K., a Wholey, J. (gol.) *Handbook of Practical Program Evaluation*. California: Jossey-Bass

Alber, R. (2012). Deeper Learning: A Collaborative Classroom Is Key. [Blog] *edutopia*. Ar gael yn: <https://www.edutopia.org/blog/deeper-learning-collaboration-key-rebecca-alber> (Darllenwyd 20 Chwefror 2020)

Bradbury, A. a Holmes, G. (2017). *Grouping in Early Years and Key Stage 1 "A Necessary Evil?"*. [online] National Education Union. Ar gael yn: <https://neu.org.uk/media/3191/view> (Darllenwyd 12ed o Chwefror. 2020).

Budden, B. (2017). 'How to make mixed ability work: Let children take control of the lesson', *tes.com* 20ed o Ebrill 2017. Ar gael yn: <https://www.tes.com/news/how-make-mixed-ability-work-let-children-take-control-lesson> (Darllenwyd 10ed o Chwefror 2020)

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (1996). *A Guide to Teaching Practice*. 4ydd arg. London: Routledge.

Cohen, L., Manion, L. and Morrison, K. (2013) *Research methods in education*. 7 Arg. Oxon: Routledge

Donadlson, G. (2015). *Dyfodol Llwyddiannus Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru*. OGL

Dudley, P. (2012). *Lesson Study*. Cambridge: Peter Dudley.

Estyn. (2016). Adroddiad.

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/2016-17%20en.pdf> (Darllenwyd 1af o Chwefror 2020)

Estyn. (2018). Adroddiad.

<https://www.estyn.gov.wales/sites/www.estyn.gov.wales/files/documents/2018-19%20en.pdf> (Darllenwyd 1af o Chwefror 2020)

George, M. (2018). 'Pupils prefer sets to mixed-ability groups', *tes.com*, 4ydd o Fedi 2018. Ar gael yn: <https://www.tes.com/news/pupils-prefer-sets-mixed-ability-groups> (Darllewnyd 10ed o Chwefror 2020)

Godfrey, D., Seleznyov, S., Anders, J., Wollaston, N. a Barrera-Pedemonte, F. (2018). A developmental evaluation approach to lesson study: exploring the impact of lesson study in London schools. *Professional Development in Education*, [ar-lein] 45(2), pp.325-340. Ar gael yn: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/289267/mod_resource/content/1/Godfrey%20et%20al.%202019.pdf (Darllenwyd 10 Chwefror 2020).

Goodall, C. (2015). How do we create ASD-friendly schools? A dilemma of placement. *Support for Learning*, [ar-lein] 30(4), tud.305-326. Ar gael yn: https://onlinelibrary.wiley.com/doi/pdf/10.1111/1467-9604.12104?casa_token=Ds-

M6VJ6C40AAAAA%3A8RfZJiY_BtQbEJMXydkMZ-7UBo8iobF-lbXE6_kkY0CXCHhThYs-f8vi15SvpjRx8eqw8EFU_re43jDE (Darllenwyd 19 Chwefror 2020).

Grant, R. (2019). 'Grouping primary children by ability is indefensible', *tes.com*, 30ain o Ionawr 2019. Ar gael ar: <https://www.tes.com/news/grouping-primary-children-ability-indefensible> (Darllenwyd 10ed o Chwefror 2020)

Gurgenidze, M. (2012). Methodology: Teaching mixed ability classes. *GESJ: Education Science and Psychology*, 1(20), 56- 63. Ar gael yn: http://whel-primo.hosted.exlibrisgroup.com/primo-explore/fulldisplay?docid=TN_eue_98765581&context=Ebsco&vid=44WHELF_UWTSD_VU1&lang=en_US&search_scope=CSCOP_EVERYTHING&adaptor=44WHELF_UWTSD_Ebsco&tab=tab1&query=any,contains,teaching%20mixed%20ability%20classes&offset=0 (Darllenwyd 9 Chwefror 2020).

Hallam, S. a Ireson, J. (2001). *Ability Grouping in Education*. London: Paul Chapman Publishing.

Hattie, J. (2009). *Visible learning*. London: Routledge.

Hillyard, S. (2020). Advancing Learning: Helping very young learners improve their collaboration skills. [Blog] *Macmillan Education*. Ar gael yn: <https://www.macmillanenglish.com/blog-resources/article/advancing-learning-helping-very-young-learners-improve-their-collaboration-skills> (Darllenwyd 19 Chwefror 2020).

Holmes, G. a Kitto, E. (2019). Early years ability grouping and the pedagogical constraints upon children's learning identities. *Education 3-13*, [ar-lein] 47(7), t.854-861. Ar gael yn: <https://www-tandfonline.com.ezproxy.uwtsd.ac.uk/doi/citedby/10.1080/03004279.2019.1622506?scroll=top&needAccess=true> (Darllenwyd 9ed o Chwefror. 2020).

Kitzinger, J. (1995). Qualitative Research: Introducing focus groups. *BMJ*, [ar-lein] 311(7000), pp.299-302. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/15566389_Qualitative_Research_Introducing_Focus_Groups (Darllenwyd 7 Chwefror 2020).

Kumar, R. (2005). *Research Methodology A Step by Step Guide For Beginners*. London:SAGE Publications.

Majid, M., Othman, M., Mohamad, S., Lim, S. a Yusof, A. (2017). Piloting for Interviews in Qualitative Research: Operationalization and Lessons Learnt. *International Journal of Academic Research in Business and Social Sciences*, [ar-lein] 7(4), tud.1073-77. Ar gael yn: https://www.researchgate.net/publication/317696788_Piloting_for_Interviews_in_Qualitative_Research_Operationalization_and_Lessons_Learnt (Darllenwyd 21 Chwefror. 2020).

Mason, J. (2007). *Qualitative Researching*. London:SAGE Publications.

Murphy, R., Weinhardt, F., Wyness, G. a Rolfe, H. (2017). *Lesson Study Evaluation report and executive summary November 2017*. London: Education Endowment Foundation.

Payne, G. and Payne, J. (2004). *Key concepts in social research*. London: SAGE Publications.

Ramrathan, L., Le Grange, L. a Higgs, P. (2017). *Education studies for initial teacher development*. Cape Town: Juta.

Robertson, A. (2017). Mixed ability classes barely exist in schools researchers find, *schoolsworld.co.uk*, 5ed o Fedi 2017, Ar gael yn: [_schoolsworld.co.uk/mixed-ability-classes-barely-exist-in-schools-researchers-find/](https://www.schoolsworld.co.uk/mixed-ability-classes-barely-exist-in-schools-researchers-find/) (Darllenwyd 11eg o Chwefror 2020)

Shea, J. (1995). Problems with Collaborative Learning. *Journal of Geological Education*, [ar-lein] 43(4), tud.306-308. Ar gael yn: <https://www.tandfonline.com/doi/pdf/10.5408/0022-1368-43.4.306?needAccess=true> (Darllenwyd 20 Chwefror 2020).

Taylor, B., Francis, B., Archer, L., Hodgen, J., Pepper, D., Tereshchenko, A. a Travers, M. (2016). Factors deterring schools from mixed attainment teaching practice. *Pedagogy, Culture & Society*, [ar-lein] 25(3), pp.327-345. Ar gael yn: <https://www.tandfonline.com/doi/full/10.1080/14681366.2016.1256908> (Darllenwyd 7 Chwefror 2020).

The National Strategies (2009). *Improving subject pedagogy through Lesson Study*. [pdf] UK: Crown Copyright. Ar gael yn: https://moodle.uwtsd.ac.uk/pluginfile.php/289257/mod_resource/content/1/Improving%20subject%20pedagogy%20through%20Lesson%20Study.pdf (Darllenwyd 16 Chwefror 2020).

Waldersee, V. (2018). *Children prefer banded classes to mixed ability classes, new research shows* | YouGov. [ar-lein] Yougov.co.uk. Ar gael yn: <https://yougov.co.uk/topics/education/articles-reports/2018/09/04/children-prefer-banded-classes-mixed-ability-class> (Darllenwyd 11 Chwefror. 2020).

Wehbe, S. (2017). 5 Important Reasons Why Teamwork Matters! *Potential* Ebrill 31 2017. Ar gael yn: <https://www.potential.com/articles/5-important-reasons-why-teamwork-matters/> (Darllenwyd 9ed o Chwefror 2020)

Atodiadau

Atodiad 1

Arsylwad Dosbarth A, plentyn A

<u>Manylion y disgybl</u>	
Oed: 6 Blwyddyn: 1 Plentyn: (A) B C Dyddiad: 3/2/2020 Rhyw: Merch	
Hyder	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
Cynorthwyo (Cymorth Geiriol) (Cymorth Corfforol)	<u>Siart Tali</u> ////
Ymateb	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
<u>Nodiadau Ychwangeol</u> (Unrhyw nodiadau/dyfyniadau ychwangeol) “Pwy sy’n hapus os ydw i’n rhoi hyn ar y gwyneb drist?” Gofyn unigolion o fewn y grwp beth mae nhw’n meddwl. Colli ychydig o ddiddordeb, ond am tro ei hun. Gwenud y penderfyniad ei hun o ble i rhoi’r llun, ac yna yn gofyn gweddill y grwp. Eisiau newid ble roedd y lluniau wedi cael ei osod gan unigolion ar all yn y grwp. Wedi helpu plentyn oedd yn drist yn ystod y dasg.	

Atodiad 2

Arsylwad Dosbarth A, plentyn B

<u>Manylion y disgybl</u>	
Oed: 6 Blwyddyn: 2 Plentyn: A B C	Dyddiad: 3/2/2020 Rhyw: Bachgen
Hyder	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
Cynorthwyo (Cymorth Geiriol) (Cymorth Corfforol)	<u>Siart Tali</u> ////
Ymateb	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
<u>Nodiadau Ychwangeol</u> (Unrhyw nodiadau/dyfyniadau ychwangeol) “Ydw i’n gallu rhoi e ar y hapus?”. Roedd yn ymateb yn dda i blant eraill oedd yn gofyn cwestiynnau iddo. Roedd yr unigolyn hyn yn ymddangos i ond dewis lluniau hapus. Eu hoff lluniau oedd y rhai hapus. Yn ymrhoi ac yn ymateb i’r plant eraill. Dewis lluniau o gymeriadau oedd yn edrych fel aelodau o’i deulu, er enghraifft cymeriadau gyda gwallt sinser. “Edrych fel fy mrawd”.	

Atodiad 3

Arsylwad Dosbarth A, plentyn C

<u>Manylion y disgybl</u>	
Oed: 6 Blwyddyn: 2 Plentyn: A B C Dyddiad: 4/2/2020 Rhyw: Bachgen	
Hyder	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
Cynorthwyo (Cymorth Geiriol) (Cymorth Corfforol)	<u>Siart Tali</u> /
Ymateb	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
<u>Nodiadau Ychwangeol</u> (Unrhyw nodiadau/dyfyniadau ychwangeol) Dewis ble mae'r llun yn mynd, ac ddim yn trafod gyda gweddill y grwp. Ddim yn edrych ar beth mae'r plant eraill yn dewis. Gorwedd ar y llawr, ac yn dechrau colli diddordeb yn y dasg. "Na mae'n grac" – eisiau newid ble mae'r llun yn mynd. Colli diddordeb erbyn y diwedd. Eisiau gwenud y dasg yn annibynnol.	

Atodiad 4

Cyfweliad plentyn A Dosbarth A

Cyfweliad gyda disgybl (A, B, C)

Sut wyt ti'n teimlo wrth weithio yn y grŵp yma?

Ddim yn hapus wrth weithio yn y grŵp maent wedi cael ei benodi. "Pawb yn gwaeddu arnaf i".

Wyt ti wedi helpu ffrind yn ystod y dasg? Pam?

Na.

Beth wyt ti wedi dysgu heddiw?

Dysgu sut i wneud pyramid a thwr eiffel. Hefyd sut i weithio fel grŵp, ond dal yn ailadrodd bod plant arall o fewn y grŵp yn gweiddi arni.

Beth oedd angen cofio wrth wneud y dasg?

Ddim yn gallu cofio, dim ymateb.

Beth wnest ti yn ystod y dasg/ wers?

Dysgu beth oedd yn neud ffrind da. Gweld rhywbeth trist a rhoi llun o'r person ar y daflen drist.

Atodiad 5

Cyfweliad Dosbarth A, plentyn B

Cyfweliad gyda disgybl A, B, C

Sut wyt ti'n teimlo wrth weithio yn y grŵp yma?

Rydw i'n hoffi gweithio yn grŵp enfys, oherwydd rydw i'n hoffi gwneud trenau a chwarae gyda thractor.

Wyt ti wedi helpu ffrind yn ystod y dasg? Pam?

"Oeddwn, achos rydw i wedi". Ddim wedi gallu esbonio pam neu sut oedd wedi helpu ffrind.

Beth wyt ti wedi dysgu heddiw?

"Ddim yn gwybod".

Beth oedd angen cofio wrth wneud y dasg?

"Roedd angen i ni gydweithio".

Beth wnest ti yn ystod y dasg/ wers?

Rhoi'r gwynebau ar y taflenni crac, trist a hapus.

Atodiad 6

Cyfweliad Dosbarth A plentyn C

Cyfweliad gyda disgybl A, B, C

Sut wyt ti'n teimlo wrth weithio yn y grŵp yma?

Na, ddim yn hoffi gweithio yn y grŵp Cinderella. "Dwi ddim yn hoffi (enw plentyn). Ac yn ogystal â hyn ddim yn hoffi grŵp oherwydd nad yw'n hoffi enw'r grŵp, a ddim yn hoffi Cinderella.

Wyt ti wedi helpu ffrind yn ystod y dasg? Pam?

"Oeddwn". Nid oedd y plentyn yn medru esbonio sut yr oedd wedi helpu ffrind.

Beth wyt ti wedi dysgu heddiw?

"Ddim yn gwybod".

Beth oedd angen cofio wrth wneud y dasg?

Roedd y plentyn hwn wedi cael ychydig o arweiniad ar gyfer trio ateb y cwestiwn canlynol. Gofynnodd yr ymchwilydd os oedd y dasg yn un annibynnol, neu os oedd angen cydweithio. Nododd y plentyn bod y dasg yn un annibynnol.

Beth wnest ti yn ystod y dasg/ wers?

"Rhoi gwynebâu cywir yn y lle iawn".

Nodiadau ychwanegol

Ddim wedi mwynhau oherwydd roedd y dasg yn ddiflas. Well gyda'r plentyn i chwarae gyda lego.

Atodiad 7

Arsylwad Dosbarth B, plentyn A

<u>Manylion y disgybl</u>	
Oed: Blwyddyn: 1 Plentyn: A B C	
Dyddiad: 4/2/20 Rhyw: Merch	
Hyder	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
Cynorthwyo (Cymorth Geiriol) (Cymorth Corfforol)	<u>Siart Tali</u>
Ymateb	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
<u>Nodiadau Ychwangeol</u> (Unrhyw nodiadau/dyfyniadau ychwangeol) Roedd yr unigolyn yma'n hyderus iawn wrth ddi-doli'r lluniau, ond nid oedd hi'n gofyn i weddill y grŵp pob tro. Gofynnodd i'w ffrind unwaith "beth wyt ti'n meddwl?" Roedd yr unigolyn yn amlwg yn annibynnol iawn ac nid oedd ots gyda hi am farn eu cyfoedion. Er hyn erbyn hanner ffordd trwy'r dasg roedd hi wedi diflasu ac wedi rhoi pen lawr ar y bwrdd. Roedd yr unigolyn yn medru adnabod dagrau yn y llun gan ddweud "mae'n dod o lygaid fe".	

Atodiad 8

Arsylwad Dosbarth B plentyn B

<u>Manylion y disgybl</u>	
Oed: Blwyddyn: 1 Plentyn: A B C	Dyddiad: 4/2/20 Rhyw: Bachgen
Hyder	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
Cynorthwyo (Cymorth Geiriol) (Cymorth Corfforol)	<u>Siart Tali</u> III
Ymateb	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
<u>Nodiadau Ychwangeol</u> (Unrhyw nodiadau/dyfyniadau ychwangeol) Roedd yr unigolyn yma'n hyderus iawn wrth adnabod y teimladau gwahanol yn y lluniau ac yn medru cyfleu hyn ar lafar. "Mae'n cael gwyneb hapus" "Na mae ddim yn drist mae'n grac". Roedd yr unigolyn yma'n gweld i fod yn mwynhau'r dasg ac yn ymddangos i fod yn llais mwyaf y grŵp. Roedd y bachgen yn fywiog iawn ac yn defnyddio ei dwylo i fynegi emosiwn y lluniau. Fe wnaeth yr unigolyn yma cofio un o brif feini prawf y dasg oedd i "ddim siarad ar draws". Fe wnaeth y bachgen yma nodio er mwyn cytuno gydag aelodau eraill y grŵp ac yn gofyn i weddill y grŵp cyn didoli'r llun.	

Atodiad 9

Arsylwad Dosbarth B, plentyn C

<u>Manylion y disgybl</u>	
Oed: Blwyddyn: 1 Plentyn: A B C	Dyddiad: 4/2/20 Rhyw: bachgen
Hyder	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
Cynorthwyo (Cymorth Geiriol) (Cymorth Corfforol)	<u>Siart Tali</u> II
Ymateb	Graddfa Leuven ar gyfer lles: 1 2 3 4 5
<u>Nodiadau Ychwangeol</u> (Unrhyw nodiadau/dyfyniadau ychwangeol) Nid oedd yr unigolyn yma'n siarad lot ond roedd yn edrych yn ddigon hapus wrth gwblhau'r dasg. Fe wnaeth y bachgen adnabod mynegiant wynebol hapus yn lle dicter yn ystod y dasg. "Wyt ti eisiau help" gofynnodd y bachgen i gyfoed y grŵp a oedd yn estyn llun. Roedd yr unigolyn yn medru adnabod llun o ferch hapus gan ddweud bod hi'n hapus oherwydd "cause mae'n cael ffrind". Yn ystod diwedd glo'r dasg roedd y bachgen yn edrych a gwirio er mwyn iddo fod yn hapus gyda didoli'r lluniau. Aeth yr unigolyn yma draw yn syth yn ystod diwedd y dasg er mwyn helpu ffrind pan wnaeth bocs o bensiliau cwmpo. Gofynnodd y bachgen i eraill yn y grŵp ychydig o weithiau yn ystod y dasg.	

Atodiad 10

Cyfweliad Dosbarth, plentyn A

Cyfweliad gyda disgybl (A), B, C

Sut wyt ti'n teimlo wrth weithio yn y grŵp yma?

Dda ac yn hapus achos dwi'n hoffi bod yn y cylch. Rydw i'n hoffi gweithio yn y grwp newydd a grwp Teigr.

Wyt ti wedi helpu ffrind yn ystod y dasg? Pam?

Na doedd neb angen help.

Beth wyt ti wedi dysgu heddiw?

Bod yn neis, roeddwn i'n gywbod sut i fod yn ffrind da ond wedi dysgu sut i wneud hyn yn fwy.

Beth oedd angen cofio wrth wneud y dasg?

Wedi anghofio

Beth wnest ti yn ystod y dasg/ wers?

Dangos y llun i'r grwp a rhoi e mewn i'r lle cywir- trisy, hapus, grac.

Atodiad 11

Cyfweliad Dosbarth B, plentyn B

Cyfweliad gyda disgybl A, (B), C

Sut wyt ti'n teimlo wrth weithio yn y grŵp yma?

Da achos mae pobl newydd yn y grwp.

Wyt ti wedi helpu ffrind yn ystod y dasg? Pam?

Ie- ddim yn gwybod.

Beth wyt ti wedi dysgu heddiw?

Rhywbeth newydd.

Beth oedd angen cofio wrth wneud y dasg?

Sut i lwyddo a trafod y cardiau gyda ffrindiau yn y grwp.

Beth wnest ti yn ystod y dasg/ wers?

Roedd lluniau gyda gwynebau a roedd angen gofyn i pawb yn y grwp os oedden nhw'n hapus i rhoi'r llun ar y poster cywir.

Atodiad 12

Cyfweliad Dosbarth B, plentyn C

Cyfweliad gyda disgybl A, B, C

Sut wyt ti'n teimlo wrth weithio yn y grŵp yma?

Hapus rydw i'n hoffi gweithio gyda [REDACTED] (enw bachgen)

Wyt ti wedi helpu ffrind yn ystod y dasg? Pam?

Ydw rydw i wedi dangos y llun.

Beth wyt ti wedi dysgu heddiw?

Dysgu am grwpiau newydd.

Beth oedd angen cofio wrth wneud y dasg?

Dim torri ar draws.

Beth wnest ti yn ystod y dasg/ wers?

Wedi anghofio.

Atodiad 13

Adfyfrio astudiaeth wers 1 – Dosbarth A

Model adfyfiriol Kolb

Y profiad ei hun- beth ddigwyddodd?

Yn y wers hon roedd tasg ffocws wedi cael ei chynnal gyda disgyblion oedd wedi cael ei grwpio yn ôl gallu. Roedd disgybl A, yn yr achos hwn, ddim wedi dangos i gydweithio gyda disgyblion eraill yn y grŵp. Roedd y disgybl hwn yn gwneud eu penderfyniad yn annibynnol, cyn trafod gyda gweddill y disgyblion yn y grŵp. Roedd disgybl B wedi arddangos i weithio yn dda gydag eraill yn y grŵp. Mae'n gwneud hyn trwy ofyn ac ymateb i gwestiynau i ddisgyblion eraill yn y grŵp. Roedd disgybl C ddim wedi cydweithio gyda neb arall yn y grŵp, roedd yn gwneud ei phenderfyniadau yn annibynnol.

Arsylwi adfyfiriol- meddwl am y profiad

Roedd y wers hon wedi neud i ni feddwl a oedd diffyg ymgysylltiad y disgybl gallu uwch o ganlyniad i'r dasg eu hun. Nid oedd y dasg yn un heriol, ac yn canolbwyntio yn fwy ar sut oedd y disgyblion yn rhyngweithio. Yn ddiddorol iawn roedd disgybl B ond yn dewis lluniau oedd gydag wynebau hapus. Yn ogystal â hyn roedd hefyd yn dewis y rhai oedd yn edrych fel aelodau o'i deulu. Mae'r disgybl hyn gyda datganiad o ASA, ac efallai ddim yn deall emosiynau arall. Roedd disgybl C wedi arddangos iaith gorfforol anffurfiol, ac wedi diflasu yn llwyr. Nid oedd yn cyfathrebu gyda neb arall yn y grŵp.

Cysyniad haniaethol- beth ydw i wedi dysgu o'r profiad?

Roedd y dasg eu hun yn rhy hawdd, ac efallai ddim wedi rhoi digon o gyfle i fesur beth oedd angen mesur. Yn ogystal â hyn roeddwn am i'r disgyblion trafod, er mwyn gallu mesur sut roedd y disgyblion yn rhyngweithio. Ond ar ôl ystyried hyn a'r wers efallai nid oedd yn addas ar gyfer yr oedran penodol hwn, ac efallai rhoi angen rhoi fwy o sgaffaldio yn eu lle. Yn ddiddorol iawn roedd y ddau ddisgybl o'r gallu uwch wedi arddangos yr un fath o ymddygiad, hynny yw diflastod. Rydyn ni'n tybio roedd disgybl B wedi ymgysylltu i'r dasg yn dda oherwydd roedd wedi cysylltu gyda bywyd ei hun.

Arbrofi gweithredol- rhoi mewn i'r arfer beth ydw i wedi dysgu

Gwelwyd yn cloi iawn roedd y dull o gyfweld a'r disgyblion yn effeithio ar ei hyder i gyfranogi. Wnaethon drafod fel ymchwilwyr sut fyddai'r ffordd orau i wneud y cyfweiliadau yn y wers nesaf. Penderfynwyd byddai gwneud y cyfweiliad gyda'r athrawes dosbarth yn unig yn fwy addas ar gyfer y disgyblion. Roeddwn wedi darganfod ar y cyfan nid oedd llawer o ymgysylltiad gyda'r disgyblion yn y grwpiau gallu. Oni bai am ddisgybl B, oedd yn eithriad. Yn ogystal â hyn, byddai'n syniad i ddechrau gweithio gyda'r disgyblion er mwyn datblygu eu rhyngweithio o fewn grŵp.

Atodiad 14

Adfyfrio astudiaeth wers 2 – Dosbarth B

Model adfyfriol Kolb

Y profiad ei hun- beth ddigwyddodd?

Roeddwn i'n arsylwi ar dasg ffocws o ddidoli lluniau wynebaw sy'n cyfleu hapusrwydd, tristwch a dicter mewn i dri chylch oedd yn mynegi'r teimladau yma. Arsylwais tri phlentyn o fewn dwy dasg ffocws. Roedd y disgyblion o fewn grwpiau gallu cymysg, ac roedd plentyn A a C mewn un grŵp a phlentyn B mewn grŵp gwahanol. Fe roedd plentyn A a C yn gweld hi'n anodd cyd-weithio, trafod, a phenderfynu gydag aelodau eraill eu grwp. Yn hytrach na gwneud hyn roedden nhw'n didoli'r lluniau'n annibynnol. Ond roedd plentyn B yn llawer mwy hyderus wrth gyd-weithio a thrafod o fewn ei grwp, roedd y plentyn yma yn gofyn i'r grwp cyn iddo ddidoli ar y llun cywir.

Plentyn A- gallu uchel

Plentyn B- gallu canolig

Plentyn C- gallu isel

Arsylwi adfyfriol- meddwl am y profiad

Wrth feddwl am y profiad teimlaf fod y dasg ei hun o ddidoli'r lluniau'n rhy hawdd, ond roedd y plant yn gweld hi'n heriol iawn i drafod a chyd weithio gydag eraill. Nid oedd digon o gyfle i'r plant trafod wrth wneud y dasg. Roedd plentyn A sy'n lefel gallu uchel wedi diflasu ac wedi didoli'n annibynnol yn lle gofyn i weddill y grŵp, y dasg efallai oedd y broblem gan nad oedd e'n ddigon heriol i'r plentyn yma. Fe wnaeth plentyn B cynorthwyo eraill yn y grŵp yn ystod y dasg ffocws yma. Roedd yn trafod gydag eraill yn fywiog ac yn gweld ei bod yn mwynhau'r dasg. Roedd plentyn C yn dawel iawn ond yn trafod gydag eraill ac yn cymryd barn eraill cyn didoli'r wynebaw i'r llun cywir.

Cysyniad haniaethol- beth ydw i wedi dysgu o'r profiad?

Yn ôl ymgysylltiad y plant credaf fod hyn yn ddibynnol ar y dasg maent yn ei chwblhau. Roedd plentyn A wedi diflasu gan fod y dasg efallai'n rhy hawdd iddi. Roedd plentyn A yn amlwg yn annibynnol iawn gan nad oedd hi'n cyd-weithio'n dda a ddim yn deall bod y dasg yn un grŵp. Yn gyffredinol roedd y plant yn gweld hi'n anodd gwneud penderfyniad grŵp a thrafod ag eraill cyn didoli'r llun.

Arbrofi gweithredol- rhoi mewn i'r arfer beth ydw i wedi dysgu

Ar y cyfan roedd ymgysylltiad y plant yn well trwy weithio o fewn grwpiau gallu cymysg. Mae angen datblygu sgiliau cyd-weithio'r plant yn gyffredinol, ond credaf oedran ydy'r broblem fwyaf yma. Rhwng astudiaeth wers un a dau fe wnes i a fy mhartner ymchwil newid y cyfweiliad. Gwelais wahaniaeth yn ymateb y plant yn ystod y cyfweiliad ar ôl fy ngwers gan fod fy mhartner sydd yn ddieithryn iddyn nhw yn eistedd ar fy mwys. Ar gyfer yr astudiaeth wers nesaf fe fyddai'n eistedd rownd y gornel o'r cyfweiliad ond dal mewn clyw er mwyn gweld os ydy'r plant yn ymateb yn well heb ddieithryn yn eistedd ar ei bwys.